# Comisiwn y Senedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Hybrid - Digital** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 2 Mehefin 2025** |
| Amser: | **10.30 – 12.00** |

## Cofnodion: SC(6)2025(5)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Y Gw. Anrh. Elin Jones AS (Cadeirydd)**<br>**Hefin David AS**<br>**Janet Finch-Saunders AS**<br>**Adam Price AS**<br>**Joyce Watson AS** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**<br>**Arwyn Jones, Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu**<br>**Matthew Richards, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd Dros Dro**<br>**Ed Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>**Leanne Baker, Prif Swyddog Pobl**<br>**Lisa Bowkett, Prif Swyddog Cyllid, Comisiwn y Senedd**<br>**Jan Koziel, Head of Procurement**<br>**Laurian Hubbard, Pennaeth Ymgysylltu, Head of Engagement**<br>**Craig Griffiths, Head of Members Business Support**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau**<br>**Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd**<br>**Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd** |
| Eraill yn bresennol: | |

## 1 <u>Cyflwyniad</u>

1.a Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Nid oedd dim ymddiheuriadau.

1.b Datgan buddiant

Nid oedd dim datganiadau o fuddiant.

1.c Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Comisiynwyr ar Gofnodion y cyfarfod ar 28 Ebrill 2025.

## 2 Blociau Adeiladu'r Gyllideb

Trafododd y Comisiynwyr y prif dybiaethau yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2026-27 sydd â goblygiadau ariannol, a'r hyn y dylid ei adlewyrchu yn y cyflwyniad cyllidebol i'r Pwyllgor Cyllid ym mis Hydref.

Rhoddodd y comisiynwyr eu barn gychwynnol ar y sail y bydd cyllideb ddrafft fanwl 2026/27 yn cael ei pharatoi; a chadarnhau fod y rhagdybiaethau gweithio yn briodol.

Byddai'r Gyllideb Ddrafft yn cael ei pharatoi ar gyfer cyfarfod y Comisiwn ym mis Medi, cyn cael ei gosod.

## 3 Diweddariad Bae 2032

Rhoddwyd diweddariad i'r Comisiynwyr ar brosiect Bae 32, a nodwyd y cynnydd a wnaed.

## 4 Materion y Seithfed Senedd

Rhoddwyd crynodeb i'r Comisiynwyr o'r materion sy'n debygol o godi ar gyfer Comisiwn y Senedd o adroddiad Pwyllgor Senedd y Dyfodol ar Fusnes Seneddol yn y Seithfed Senedd.

Yng ngoleuni'r cais gan Bwyllgor Senedd y Dyfodol, nododd y Comisiynwyr fod y Bwrdd Gweithredol wedi cytuno mewn egwyddor i sefydlu astudiaeth ddichonoldeb ar ailgyflwyno gwasanaeth crèche, a byddai manylion hyn yn destun cymeradwyaethau pellach maes o law. Gofynnodd Janet Finch Saunders AS am nodi ei gwrthwynebiad i crèche a ddarperir gan y Comisiwn.

Cafodd y crynodeb ei nodi gan y Comisiynwyr, a bydd papurau i lywio trafodaeth ar sut y gallai'r Comisiwn fod am ymateb yn cael eu darparu mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

## 5 Adolygiad Addysg

Rhoddwyd canfyddiadau i'r Comisiynwyr yn deillio o adolygiad y gwasanaeth Addysg. Nod yr adolygiad oedd deall a yw'r ddarpariaeth bresennol yn cyd-fynd â gweithrediad y Cwricwlwm i Gymru, a deall yn well yr heriau y mae addysgwyr yn eu hwynebu, hygyrchedd ein cynnig, a'r rhwystrau gwirioneddol neu ganfyddedig sy'n bodoli wrth ymgysylltu â'n gwasanaethau .

Nododd y Comisiynwyr ddarpariaeth y dyfodol a chytunwyd gyda mwyafrif:

- y dylai pob grŵp, gan gynnwys y rhai o fewn cwmpas 10 milltir i'r Senedd, fod yn gymwys i gael y cymhorthdal teithio;
- i barhau â'r broses neilltuo lle â blaenoriaeth ar gyfer Sesiynau Addysg Fewnol o flwyddyn academaidd 2026/27 i fod ar gael i grwpiau sydd â chanran uwch o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim; ac
- yr Opsiwn a argymhellir i weithredu cynnydd o 50% yn y cymhorthdal teithio.

## 6 Y Farchnad

Cafodd y Comisiynwyr werthusiad o fformat Y Farchnad fel digwyddiad, a lansiwyd ym mis Mai 2024 fel cynllun peilot yn dilyn trafodaeth gan y Comisiynwyr ar nifer o gynigion i wneud defnydd mwy pwrpasol ac effeithiol o ystad y Senedd.

Cafodd y canlyniadau eu trafod gan y Comisiynwyr a chytunwyd ar yr opsiwn a argymhellir, i wneud Y Farchnad yn gynnig parhaol yn sgil llwyddiant y cynllun peilot, a fydd hefyd yn cynorthwyo i ddarparu ar gyfer y cynnydd yn y galw am ystafelloedd cyfarfod wrth i'r Senedd ehangu.

## 7 Ymateb i Ran 2 Ymgynghoriad y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar y Penderfyniad

Trafododd y Comisiynwyr ymateb drafft i Ran Dau yr Ymgynghoriad ar Adolygiad y Bwrdd Taliadau Annibynnol o'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau ar gyfer y Seithfed Senedd.

Cytunodd y Comisiynwyr ar yr ymateb i ymgynghoriad y Bwrdd; a nododd yr ymateb a fydd yn cael ei anfon gan y Swyddog Cyfrifyddu.

Bydd y llythyr yn cael ei ddarparu i'r Bwrdd. Nid yw ymatebion yn cael eu cyhoeddi fel mater o drefn gan y Bwrdd, er y gallai ymatebion neu safbwyntiau cryno gael eu cynnwys yn yr adroddiad a gyhoeddir ar yr adolygiad blynyddol.

## 8 Cyfamod y Lluoedd Arfog

Yng nghyfarfod y Comisiynwyr ar 24 Mawrth, cytunwyd y dylai'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol gynnal adolygiad o ganlyniadau llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog a/neu Gynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn. Ymateb oedd hyn, i gais gan Samuel Kurtz AS ar ran Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig.

Cafodd y Comisiynwyr amlinelliad o ystyriaethau pellach i'w cynorthwyo i benderfynu a ddylai Comisiwn y Senedd wneud hynny.

Cytunodd y Comisiynwyr ar yr argymhelliad y dylai'r Comisiwn, ar sail y wybodaeth a ddarparwyd, lofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog, ond ymatal rhag ymrwymo i'r Cynllun Cydnabod Cyflogwyr am y tro oherwydd y polisïau adnoddau dynol sydd eisoes ar waith.

Bydd llythyr yn cael ei anfon at Sam Kurtz AS i'w hysbysu o'r penderfyniad.

## 9 Papurau i'w nodi:

9.a Polisïau Absenoldeb oherwydd Salwch

Nododd y Comisiynwyr y polisïau newydd i helpu i reoli absenoldeb staff y Comisiwn yn effeithiol, yn dilyn adolygu'r Polisi Rheoli Presenoldeb, nad oedd yn cynnwys camau gweithdrefnol allweddol o ran sut y dylid rheoli absenoldeb salwch hirdymor, a'i ddisodli gan bolisi newydd. Bydd y polisïau'n cael eu cyhoeddi a'u gweithredu ar gyfer staff y Comisiwn. Gofynnodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus hefyd am gopi o'r polisi salwch hirdymor yn Argymhelliad 5 o'i adroddiad Craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24.

9.b MTRF 2026-27 i 2028-29

Nododd y Comisiynwyr y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig wedi'i ddiweddaru, a gymeradwywyd gan y Bwrdd Gweithredol ar 15 Mai 2025, yn adlewyrchu cytundeb y Comisiwn yn ystod cyfarfod 28 Ebrill i ddiwygio'r amserlen amlinellol ar gyfer adolygu rhai gwasanaethau penodol sydd ar gontract allanol.

9.c Llywodraethu ar gyfer y Llawlyfr Staff Cymorth

Nododd y Comisiynwyr y broses lywodraethu ar gyfer cymeradwyo'r polisïau templed (ac eithrio'r rhai sy'n orfodol gan Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd) a gynhwysir yn y Llawlyfr Staff Cymorth a ddarperir i Aelodau o'r Senedd, i'w cefnogi yn eu rôl fel cyflogwyr staff cymorth.

9.d Diweddariad y Bwrdd Gweithredol (penderfyniadau RAD)

Nododd y Comisiynwyr y crynodeb o benderfyniadau recriwtio a ddarperir fel mater o drefn i bob cyfarfod o'r Comisiwn.

## 10 Unrhyw fater arall

Yn y cyfnod ers y cyfarfod diwethaf, roedd y Comisiynwyr wedi cytuno ar:

- naratif drafft Adroddiad Blynyddol y Comisiwn a gylchredwyd ar gyfer adolygu ac adborth ar 14 Mai 2025
- y papur cynigion a gylchredwyd ar 20 Mai 2025, ar gyfer y cwmpas a'r dull gorau posibl o gyflawni ar gyfer yr archwiliad senedd sy'n sensitif o ran rhywedd, o dan arweiniad Joyce Watson (fel y cytunwyd yn ei gyfarfod ar 25 Hydref 2024).

Nodasant hefyd:

Lythyrau gan y Bwrdd Taliadau mewn ymateb i Hefin David ar ran y Comisiwn, y Llywydd, a'r Prif Weithredwr, dyddiedig 10 Ebrill.